

COFNOD PENDERFYNIAD CYFARFOD O DEDDF TRWYDDEDU 2003: ADRAN 103 - GWRTHWYNEBIAD HYSBYSIAD DIGWYDDIAD DROS DRO I HYSBYSIAD GAN BERSON PERTHNASOL 35 STRYD Y FARCHNAD PEN-Y-BONT AR OGWR A GYNHELIR O BELL - TRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MAWRTH, 4 EBRILL 2023 AM 14:00

Presennol

Y Cyngorydd M Lewis – Cadeirydd

Y Cyngorydd A Berrow, Y Cyngorydd J Pratt

Swyddogion:

A Lee, Y Witchell, S Griffiths and J Ellams

Teitl yr Adroddiad	Deddf Trwyddedu 2003: Adran 103 - Gwrthwynebiad Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro i Hysbysiad Gan Berson Perthnasol 35 Stryd y Farchnad Pen-y-bont ar Ogwr
Penderfyniad a Wnaed	<p>Mae'r Is-bwyllgor wedi ystyried y canllawiau, ynghyd ag Adran 182 o Ddeddf Trwyddedu 2003 a'r Amcanion Trwyddedu o dan y Ddeddf Trwydded. Mae'r Is-bwyllgor hefyd wedi ystyried y sylwadau gan yr Heddlu a'r Ymgeisydd.</p> <p>Mae'r Is-bwyllgor wedi canfod bod problemau'n ymwneud â throstedd ac anhrefn a niwsans cyhoeddus yn Eden a Bar 35. Mae'r Is-bwyllgor wedi cymryd i ystyriaeth y sylwadau a wnaed gan yr Ymgeisydd eu bod yn cael eu rhedeg fel dau safle ar wahân, fodd bynnag mae cwsmeriaid yn aml yn cael mynediad i'r ddau safle ger y fynedfa i Eden ac mae'r ddau safle yn cael eu rhedeg gan Mr Rasul a'i wraig. Mae'r Is-bwyllgor felly wedi penderfynu, yn ôl pwysau tebygolrwydd na ellir priodoli pob digwyddiad a adroddir i Eden Wine Bar yn unig ac nid Bar 35.</p> <p>Mae'r Is-bwyllgor wedi penderfynu pe bai'n caniatáu i'r digwyddiad fynd yn ei flaen y byddai hynny'n tanseilio'r amcanion trwyddedu ac felly wedi penderfynu rhoi gwrth-hysbysiad i'r Ymgeisydd.</p>
Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad	4 Ebrill 2023
Datgelu Diddordebau Personol neu Niweidiol	Dim

